Q3 CAQ 364 22
29 June 2004
DP 666/03 - 07

**Rt Hon Rhodri Morgan AM**
**First Minister/Prif Weinidog Cymru**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Tel/Ffôn: 029 2082 5111
Fax/Ffacs: 029 2089 8198
Email/Ebost: rhodri.morgan@wales.gsi.gov.uk

Our ref/ Ein cyf: MB/FM/462/04

Elin Jones AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

26 Awst 2004

Annwyl Elin

Yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Mehefin, fe addewais y byddwn yn trafod y mater gydag Andrew Davies marciau ffordd ar gefnffordd yr A487 drwy Aberystwyth cyn rhoi ymateb cynhwysfawr i'ch pryderon. Rwyf bellach mewn sefyllfa i wneud hynny.

Mae llythyr Andrew, dyddiedig 4 Mai atoch yn hollol gywir. Efallai y gallaf ymhelaethu arno drwy bwysleisio ymhellach rôl Llywodraeth Cynulliad Cymru fel yr awdurdod priffyrdd sy'n gyfrifol am y rhwydwaith cefnffyrdd yng Nghymru. Wrth fabwysiadu'r dull cyson o ddefnyddio marciau ffordd Saesneg yn unig drwy ganol tref Aberystwyth, rydym wedi cymryd i ystyriaeth bwysigrwydd diogelwch ar y ffordd sy'n berthnasol i amlder y marciau ffordd. Pan fydd gyrwyr ceir yn dod wyneb yn wyneb â gormod o wybodaeth ar y ffordd, cydnabyddir bod hyn yn tynnu eu sylw oddi wrth arferion da wrth yrru. Gall hyn gael effaith nid yn unig arnyn nhw eu hunain ac ar ddefnyddwyr eraill y ffordd ond ar gerddwyr yn y cyffiniau hefyd. Er y byddem o dan amgylchiadau arferol yn darparu marciau ffordd dwyieithog nid yw'n bosibl gwneud hynny ar yr A487 drwy Aberystwyth heb beryglu diogelwch ar y ffordd.

Yn ddiffuant

Rhodri

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE